**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron gynhaliwyd nos Lun, Medi 13eg 2021 yn Neudd Y Rhiw**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Wenda Williams, Geraint Jones, Gwenllian Hughes Jones, Mari Evans a Dafydd Williams
**Yn y gadair:** Cyng Nesta Roberts
**1)<u>Ymddiheuriadau a datgan diddordeb</u> :** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr RJ Williams, RG Williams, Wil Evans ac Iain Roberts
**<u>2)Cyhoeddiadau y cadeirydd</u>**: Cydymdeimlwyd gyda y Cynghorwyr Emlyn Jones ac RJ Williams sydd wedi cael profedigaethau yn ddiweddar.
**3)<u>Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12fed o Orffennaf 2021</u>**: Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd
**<u>4</u>) <u>Materion yn codi o'r cofnodion</u>**
**i)Cae Chwarae:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Gwenllian Hughes Jones fod y cae chwarae wedi ei agor y swyddogol ar Awst y 15fed a bod llawer o bobl wedi mynychu yr agoriad. Ers hynny mae y cae chwarae wedi derbyn llawer o ddefnydd.
Mae'r camerau teledu cylch-cyfyng yn gweithio yn effeithiol, er bod mwy o fatris wedi eu rhoi ynddynt gan eu bod ymlaen yn aml o ganlyniad i lawer o bobl yn defnyddio y cae. Bydd côst y cyswllt 4G yn £6 yr un ar gyfer y ddau gamera bob mis ac mae angen sefydlu archeb sefydlog (standing order) i dalu, mae y taliad yn mynd o gyfri banc y Cyng Nesta Roberts yn fisol ar y 5ed o bob mis gan nad oes gan y Cyngor gerdyn banc. Mae côst y camerau a'r polion yn £1,200.
Adroddwyd fod angen barbio y cae ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd y dylid hysbysebu y dendr. Bydd y tendr am ddau doriad blynyddol gan gynnwys torri at y giat ynghyd a thorri drain a thyfiant o amgylch y cae. Os bydd angen toriad ychwanegol, yna bydd y Cyngor yn gofyn i'r contractwr wneud hynny.
Ar hyn o bryd mae'r bin sbwriel yn cael ei wagio gan y sawl sydd yn glanhau y pentref yn ystod y tymor gwyliau. Penderfynwyd gofyn i Steffan Jones os oes posib trefnu i'r bin gael ei wagio trwy gydol y flwyddyn.
**ii)Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau:**
a)Derbyniwyd atebion i'r materion isod gan y Peiriannydd Ardal:
i.Gwaith Barbio cloddiau: Mae'r Archwiliwr Priffyrdd yn ymweld â'r safleoedd ac adrodd yn ôl i'r contractwr os bydd unrhyw ddiffygion.
ii.Bodwrdda: Mae'r Archwiliwr wedi hysbysu perchennog a thenant y tir/clawdd cerrig o'r sefyllfa ac maent am drefnu i gadw golwg ar y safle.
iii.Cyffordd Penygroeslon: Mae'r mater yma wedi cael ei anfon ymlaen i'r Gwasanaeth Trafnidiaeth gyda chais iddynt ymateb yn uniongyrchol i sylw y Cyngor Cymuned, ond nid oes ymateb wedi ei dderbyn hyd yma.
iv.Twll yn y ffordd gyferbyn â Bwlch, Y Rhiw: Mae'r twll yma bellach wedi cael sylw.
v.Barbio y ffordd trwy Bodwrdda: Mae'r ffordd yma wedi cael ei barbio yn unol â gofynion y Cyngor.
b)Derbynwyd ymateb gan y Swyddog Llwybrau fel a ganlyn:
i)Clo ar y giat ar lwybr Top Rhos, Rhoshirwaun: Doedd dim clo ar y giât yn ystod archwiliad. Mae'r swyddog yn disgwyl newid giât wrth ymyl y bont ac felly fe fydd yn cerdded y llwybr yma eto yn fuan.
ii)Llwybr o Bryn Mawr i ben Bryn Swynog, Anelog, (dim arwyddion yn cyfeirio pobl ar hyd y llwybr cywir): Fe drefnir i osod arwyddbost ger y ffordd gyhoeddus a hefyd i arwain cerddwyr ymlaen am Brŷn Swynog.
iii)Angen barbio y llwybr o Tan y Muriau i gyfeiriad Gwern Saer yn Y Rhiw: Mae'r llwybr wedi ei farbio.
c)Ffynhonnau dwr: Dim i'w adrodd ar hyn o bryd.
ch)Materion yr Eglwys Newydd gan gynnwys symud pridd o'r fynwent ynghyd ag arwyddion

yn y fynwent: Adroddodd y Cadeirydd fod yr ymddiriedolwyr bellach wedi eu cofrestru gyda y Comisiwn Elusennau a bod y cyfrif banc mewn trefn. Bydd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei drefnu cyn diwedd y mis gyda'r bwriad o ail sefydlu cymdeithas Cyfeillion yr Eglwys Newydd, gobeithir y bydd yn bosibl gwneud ceisiadau am gyllid i wneud y gwaith angenrheidiol ar yr eglwys.
Mae y Cyng Wenda Williams am holi Unllaius Cymru ynghylch cyfrifoldebau y Cyngor i roi arwyddion i rybuddio fod y to yn beryglus.
**d)Cwn yn rhydd yn Y Rhiw:** Adroddwyd fod un o'r cwn yn parhau i fod yn rhydd a bod yr heddluw wedi bod mewn cyswllt gyda thrigolion sydd wedi cyflwydno cwynio a'u bod yn casglu tystiolaeth.
**dd)Tir o flaen Eglwys Sant Hywyn:** Penderfynwyd holi Paul Evans i weld os ydi o'n dymuno unrhyw gymorth gan y Cyngor ynghylch y tir dan sylw.
**5) <u>Gohebiaethau</u>**
**i)Llythyr gan Sioned Williams parthed gor-yrru ar y B4413:** Mae'r clerc wedi cysylltu gyda'r swyddog perthnasol yng Nghyngor Gwynedd ac mae cadarnhad wedi ei dderbyn fod y Cyngor yn ystyried mesurau cyfyngu cyflymder addas yn seiliedig ar y mesuriadau cyflymder sydd wedi eu cyfrifo gan y teclynnau osodwyd ar wahanol leoliadau ar y ffordd.
**ii)Llythyr gan Alys Lloyd Jones:** Ymgynghoriad Ardal Ni 2035 - gofynwyd am ymateb gan y Cyngor Cymuned i'r cwestiynnau isod sydd yn rhan o arolwg:
*1)Yn gyffredinol, sut ydych chi'n teimlo am ardal Pen Llŷn fel lle i fyw ar hyn o bryd:*
*a)Beth sy'n dda am yr ardal? (hyd at 5 peth)*
*b)Beth sydd ddim mor dda am yr ardal? (hyd at 5 peth)*
*2. Dychmygwch yn y flwyddyn 2035 eich bod yn byw yn yr ardal ddelfrydol. Beth fyddai wedi newid er mwyn i hyn ddigwydd? (adnabod 3-5 maes blaenoriaeth. Wrth ddod i'ch casgliad, mae croeso i chi ystyried yr ystadegau a'r penawdau yn y llyfryn electroneg 'Datganiad Ardal' sydd wedi ei atodi)*
*a) Pwy yw'r prif sefydliadau a grwpiau fyddai'n gallu dod at ei gilydd i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen?*
*b)Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw waith ymgynghori lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn ddiwethaf?*
Penderfynwyd gofyn i Alys Jones fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor.
**6) <u>Cynllunio</u>**
Rhoddwyd ymateb trwy ebost i'r ceisiadau isod yn ystod yr haf:
C21/0658/30/TC: Cadarnhad o ddefnydd hanesyddol Tŷ Bach fel llety gwyliau hunangynhwysol, Morfa Bach, Aberdaron, Pwllheli, Gwynedd: Dim gwrthwynebiad.
C21/0602/30/LL: Sied amaethyddol blaen agored ar gyfer gwartheg, Pwlldefaid, Anelog: Dim Gwrthwynebiad
C21/0244/30/LL: Cais llawn i ddymchwel adeilad cadw ieir presennol a chodi adeilad pacio wyau yn ei le, Tŷ Hen, Penycaearau
C21/0790//30/LL: Adeiladu storfa slyri o dan lawr yr adeilad da byw presennol, Tir Topyn, Rhydlios, Pwllheli, Gwynedd: Dim gwrthwynebiad
C21/0795/30/LL Lleoliad / Location: Hendre Uchaf, Aberdaron, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8BL
Bwriad / Proposal: Creu pwll piswail newydd oddi mewn sied bresennol: Dim gwrthwynebiad
C21/0816/30/LL: Lleoliad / Location: Ysgo, Pencaerau, Gwynedd, LL53 8AN
Bwriad / Proposal: Adeiladu adeilad amaethyddol (sied wartheg) gan gynnwys pit slyri Integredig: Dim gwrthwynebiad
C21/0737/30/AC Lleoliad / Location: Siop Penrallt, Botwnnog, Pwllheli, Gwynedd, LL53 7SS
Bwriad / Proposal: Amrywio a dileu amodau ar ganiatâd cynllunio C12/0141/30/LL ar gyfer dymchwel annedd a chodi annedd arall yn ei le: Gwrthwynebu oherwydd amod dymchwel ar y dyfarniad gwreiddiiol, nid yw'r tŷ newydd yn gweddu i'r ardal ac mae'n ddatblygiad rhy fawr.

**8)Ariannol**
**Taliadau**
Awdurdodwyd y clerc i dalu y canlynol:
Iwan Hughes: £212.73 (Cyflog Awst), £186.09 (cyflog Medi) (bacs)
HMRC (Paye): £53.20 (Paye Awst), £46.60 (paye Medi)
John Tudor: £120 (cyfrifo Paye)
Proludic: £9,255.38 (offer cae chwarae)
Aelodaeth Unllais Cymru: £185
Huw Williams: £750 (torri llwybrau)
Cyngor Gwynedd £2,000 (cyfraniad toiledau)
Neuadd Y Rhiw: £15 (cyfarfod)
Cyngor Gwynedd: Archwiliad Mewnol 2020/21: £204
Gareth Gough: £4956
Nesta Roberts: £14.38 (cyswllt ar gyfer y TCC)
Gwynedd Cash Registers: £1,200 (TCC)
Cyfraniadau ariannol i eglwysi a neuaddau yr ardal (gwnaed y cyfraniadau o dan Adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000).
Penderfynwyd cyfranu £185 tuag at dorri mynwentydd eglwysi Sant Hywyn, Aelrhiw a Llanfaelrhys a chapeli Nebo a Bethesda.
**Derbyniadau**
Cyngor Gwynedd: £7,500 (praesept)
**9) <u>Materion ffyrdd a llwybrau</u>**
i)Penderfynwyd gwneud ymholiadau ynghylch beth mae Cyngor Gwynedd yn fwriadu ei wneud gyda adeiladau Tŷ'r Ysgol, Deunant ac Ysgol Llidiardau. Mae angen tai ar bobl leol yn yr ardal ac mae cyflwr y ddau adeilad yma yn dirywio. Tynnwyd sylw bod 17 o dai gwag rhwng Y Rhiw a Porth Colmon - dymunir gwybod os ydi perchnogion y tai yn talu trethi. Penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd.
ii)Mae problemau parcio ym mhentref Aberdaron yn ystod yr haf wedi arwain at dagfeydd. Penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd ynghylch y cynllun o roi llinellau melyn dwbl heibio yr ysgol ynghyd a'r cynllun i greu pafin heibio i Anhegraig. Trafodwyd y syniad o greu maes parcio ychwanegol yn iard yr ysgol yn ystod gwyliau'r haf.
iii)Atgoffwyd nad oes ateb wedi dod gan Gyngor Gwynedd ynghylch yr arwyddoion 'A frame' yng nghanol y pentref.
iv)Cynhaliwyd cyfarfod gan y WI yng Nghanolfan Deunant yn ddiweddar, ni chaniatawyd defnyddio y drws ffrynt ac o ganlyniad mae'n anodd i bobl sydd yn anabl neu yn fusgrell ddefnyddio y drws cefn. Disgwylir derbyn copi o lythyr gan y WI.
v)Adroddwyd bod man pasio ger Meillionydd Bach yn fwdlyd a bod car wedi mynd yn sownd yno yn ddiwedddar. Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd ei glirio.
vi)Mae cwyn bod tyfiant yn rhwystro gweledigad wrth ymuno â'r B4413 ger Tywyn, mae cerrig ar y ffordd ger Anhegraig, sydd wedi eu gosod i rwystro cerbydau rhag tynni i mewn yno, yn beryglus.
vii)Adroddwyd fod Cyngor Cymuned Botwnnog wedi cael cyfarfod gyda staff Meddygfa Rhydbach i drafod y drefn apwyntiadau etc. Penderfynwyd gofyn os caiff Cyngor Aberdaron gyfarfod gyda hwy yn ogystal.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yng Nghanolfan Deunant, nos Lun, Hydref 11eg am 7yh (os bydd Alys Lloyd Jones yn gallu bod yn bresennol)**